# VAWDASV

**Adroddiad cynnydd:** 1 Ebrill 2019 – 31 Mawrth 2020

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Amcan 1

Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru.

Cyflwynwyd dau gam o'r ymgyrch: **Dyw hyn ddim yn iawn** **Cam-drin rhywiol yw hyn**

**44,000** o ymweliadau unigol â thudalennau gwefan **Byw Heb Ofn** yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

**9,800** o ryngweithiadau â llinell Gymorth **Byw Heb Ofn** yn ystod cyfnod yr ymgyrch.

## Amcan 2

Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.

Cyhoeddwyd **canllawiau** ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i Sefydliadau Addysg Uwch.

Cymerodd **35,284** o bobl ifanc ran mewn gweithdai ymwybyddiaeth o berthnasoedd iach drwy **brosiect Sbectrwm**.

## Amcan 3

Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr.

Dyfarnwyd **£120,000** o grantiau i'r saith rhanbarth i'w helpu i **wella'r** ddarpariaeth o wasanaethau i gyflawnwyr yn eu hardaloedd.

Cynhaliwyd **8** digwyddiad rhannu arferion, a fynychwyd gan **175** o bobl.

## Amcan 4

Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal.

Cefnogwyd ymdrechion yng Ngogledd Cymru ac yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i roi **Gofyn a Gweithredu** ar waith Hyfforddwyd **1,000** o weithwyr proffesiynol ychwanegol.

Cynhaliwyd **3** sesiwn panel beilot ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr, gan ymgysylltu â **12** o oroeswyr.

## Amcan 5

Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

Hyfforddwyd **19,000** o weithwyr proffesiynol ychwanegol i nodi ac ymateb i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan greu cyfanswm o **173,200**.

Ariannwyd gweithdai i **786** o weithwyr proffesiynol nad ydynt yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

## Amcan 6

Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau holistaidd o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.

Ariannwyd adolygiad o wasanaethau **llety**.

Cyhoeddwyd **canllawiau Statudol** ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cyhoeddwyd **dangosyddion Cenedlaethol** i fesur cynnydd wrth gyflawni dibenion y Ddeddf.